

Cod ymddygiad ar gyfer gweithredwyr masnachol sy'n lansio canŵod o Gomin Glas y-Bont Uchaf, o 1 Ebrill 2017 - 30 Mawrth, 2018 yn gynhwysol:

Cyflwyniad:

Mae Comin Glas-y-Bont Uchaf yn eiddo i Gyngor Sir Powys. Cafodd trefniadau eu gwneud i roi mynediad i ganŵod mewn cysylltiad â pherchnogion y tir i lawr yr afon a hawliau pysgota. Maent yn ymwneud â'r adran o afon Gwy o Y Clas-ar-Wy i'r Gelli Gandryll; nid oes unrhyw hawl tramwyo cyhoeddus wedi ei gadarnhau ar hyd y rhan hon o'r afon.

Mae caniatâd y Cyngor i lansio a chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynnu bod gweithredwyr masnachol yn arwyddo ac yn cadw at y Cod Ymddygiad ffurfiol hwn.

Mae'r Cyngor yn caniatáu lansio canŵod (gan gynnwys caiacau) o'r comin, **rhwng 10am a 4pm**. Dylai gweithredwyr sicrhau bod teithiau yn cael eu cynllunio i wneud yn sicr bod eu cleientiaid oddi ar y rhan o afon Gwy sydd rhwng Y Clas-ar-Wy a'r Gelli Gandryll **yn ddim hwyrach na 5pm**.

Mae Afon Gwy a'r rhan fwyaf o'i llednentydd wedi cael eu dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r safleoedd hyn yn cael eu gwarchod yn llym gan y gyfraith Ewropeaidd ac maent yn bwysig yn amgylcheddol.

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn ymwneud â diogelwch, diogelu bywyd gwylt a'r amgylchedd a pharch tuag at dirfeddianwyr a defnyddwyr eraill yr afon. Gallech ganfod eich hun yn torri cyfraith amgylcheddol Ewrop os nad ydych yn cadw at y trefniadau hyn.

Cod ymddygiad:

1. Aelodaeth o gynllun sicrhau ansawdd:

Rhaid i weithredwyr sy'n lansio o Gomin Glas y-Bont Uchaf fod yn aelod o gynllun sicrhau ansawdd; mae cynlluniau derbyniol yn cynnwys:

- Cynllun Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALS);
- Cynllun Nod Safon Canŵio Prydain;
- Adventuremark.

Ar yr adeg pan fydd y gweithredwyr yn arwyddo i dderbyn y Cod Ymddygiad, rhaid iddynt allu darparu tystiolaeth (ee tystysgrif) naill ai

- Bod ganddynt achrediad cyfredol / eu bod wedi eu trwyddedu gan y cynllun;
- Eu bod wedi'u cofrestru gyda AALS / Canŵio Prydain / Adventuremark i weithio tuag at achrediad.

Noder Disgwylir i weithredwyr sy'n gweithio tuag at achrediad fod wedi cyflawni eu hachrediad neu drwydded o fewn blwyddyn o arwyddo'r Cod Ymddygiad am y tro cyntaf. Bydd gweithredwyr nad ydynt yn cyflawni achrediad ar ôl y cyfnod hwnnw, yn colli caniatâd i lansio hyd nes bo achrediad amser o'r fath yn ei le.

Mae nodyn cyfarwyddyd 6.17 AALA yn cynnig rhai Awgrymiadau Defnyddiol ar gyfer gweithredwyr hurio canŵod. Mae copi ynghlwm wrth y Cod Ymddygiad hwn.

2. Adnabod:

Mae'n rhaid i bob gweithredwr sicrhau bod enw'r cwmni neu'r ganolfan a rhif ffôn cyswllt wedi eu nodi'n glir ar ddwy ochr pob canŵ, ynghyd â rhif y gallai canŵod unigol gael eu hadnabod wrtho.

Rhaid gallu darllen enw'r cwmni, rhif adnabod y canŵ a rhif ffôn cyswllt yn glir ar bellter o 10 metr i ffwrdd oddi wrth y canŵ.

A fyddech cystal â gofalu bod y rhif ffôn cyswllt ar bob canŵio yn un a fydd yn cael ei ateb bob amser pan fydd eich cleientiaid yn debygol o fod ar yr afon - gellir ei ddefnyddio wedyn i gysylltu â nhw a rhoi gwybod i chi os oes argyfwng yn ymwneud â'ch cleientiaid.

3. Pwyntiau lansio a glanio a phwyntiau ar gyfer glanio a gynlluniwyd ar y daith:

Mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map (atodiad 1) a'u nodi ar lan yr afon gyda'r symbol canlynol:



Lle y gallwch lanio

Lle na ddylech lanio (ystumllyn)

Oni bai bod yna argyfwng (h.y. dymchwel ac achub), peidiwch â:

- Defnyddio manau lansio neu lanio eraill heb ganiatâd ymlaen llaw gan y perchennog,
- Glanio ar safle ystumllyn sy'n cael ei amlygu ar y map o dan unrhyw amgylchiadau, rhwng 15 Mawrth a 15 Awst bob blwyddyn. Gall glanio yn ystod y cyfnod hwn amharu ar rywogaethau a warchodir o adar wrth nythu.

4. Sbwriel:

Rhaid i weithredwyr:

- Roi cynhwysydd addas i gleientiaid ar gyfer sbwriel, y gellir ei glymu yn eu canŵ.
- Sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol na ddylid cario unrhyw boteli gwydr pan fyddant ar yr afon. Dylai cynhwysyddion eraill gael eu clymu i mewn i'r cwch.
- Sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol o ble y gallant waredu, neu ailgylchu gwastraff.

5. Alcohol:

Rhaid i weithredwyr sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol o'r canlynol:

- Rhaid iddynt beidio â chanŵio pan maent o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- Ni ddylid cario unrhyw alcohol mewn canŵod i lawr yr afon.

Cyfrifoldeb y gweithredwr yw asesu a yw cleientiaid o dan ddylanwad alcohol, neu eu bod yn ymddangos felly a phenderfynu a ddylid caniatáu iddynt ddefnyddio'u canŵod neu beidio.

Nodwch os sylwir ar ganŵwyr ar yr afon sydd o dan ddylanwad alcohol, gall yr heddlu gymryd camau o dan bwerau lles, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn fater diogelwch difrifol.

6. Diogelwch:

Rhaid i weithredwyr sicrhau bod eu cleientiaid yn ymwybodol o'r canlynol:

- Peryglon cyffredin ar yr afon, gan gynnwys coed;
- Defnydd cywir o'u canŵ ac offer diogelwch arall;
- Y rhifau ffôn cyswllt mewn argyfwng perthnasol;
- Mannau gwan adnabyddus o ran signal ffôn.

Rhaid i weithredwyr atgoffa eu cleientiaid eu bod yn canŵio ar eu risg eu hunain. Nid yw'r perchnogion a deiliaid tir a hawliau physgota ar hyd yr afon yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiogelwch canŵwyr.

7. Ymwybyddiaeth ynghylch defnyddwyr eraill yr afon:

Er mwyn i bysgotwyr ac eraill fwynhau eu hamser ar yr afon hefyd, rhaid i weithredwyr:

- Sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol y gallai pysgotwyr ac eraill, gan gynnwys nofwyr a cherddwyr, fod yn y dŵr neu ar lannau'r afonydd;
- Pwysleisio'r angen am ymddwyn yn barchus - gan gynnwys newid dillad o olwg y cyhoedd, cadw lefelau sŵn i isafswm, sicrhau na ddefnyddir iaith dramgwyddus a cheisio osgoi gwrthdrawiadau lle bo hynny'n bosibl.
- Gwneud cleientiaid yn ymwybodol o'r angen i roi sylwi i ac osgoi gwialennod physgota a gofalu osgoi gwrthdrawiadau lle mae nofwyr neu bysgotwyr yn bresennol yn y dŵr.
- Atgoffa eu cleientiaid i gadw sŵn i lefel sgwrsio arferol bob amser. Mae'n bosibl y bydd pysgotwyr ar y gorwel; bydd gormod o sŵn a gweiddi wrth agosáu atynt neu fynd heibio iddynt yn tarfu arnynt.
- Atgoffa eu cleientiaid i gadw aflonyddwch dŵr i isafswm drwy beidio â loetran, sbasio neu badlo i fyny'r afon yn ymyl pysgotwyr.
- Gwneud eu cleientiaid yn ymwybodol bod rhaid iddynt ddilyn cyfarwyddiadau gan bysgotwyr a fydd yn rhoi arwydd sut, pa ochr a phryd y maent am i ganŵwyr eu pasio nhw, gan fod hyn yn amrywio.

Dylai canŵwyr gymryd gofal arbennig i beidio ag aflonyddu ar welyau o chwyn dŵr a graean, yn enwedig drwy sathru a lansio / glanio ar welyau graean pan fydd y lefelau dŵr yn isel.

8. Gwersylla a thanau agored:

Heblaw mewn safleoedd gweryslla ffurfiol, ni chaniateir cynnau tanau agored a gweryslla ar Gomin Glas-y-Bont Uchaf, neu ar lannau Afon Gwy rhwng Comin Glas-y-Bont Uchaf a'r Gelli Gandryll.

9. Math o gychod sydd i'w defnyddio:

Ni chaniateir defnyddio cychod a wneir o beth bynnag sydd ar gael ar y pryd, neu gychod modur ar yr afon rhwng Comin Glas-y-Bont Uchaf a'r Gelli Gandryll. Rhoddir caniatâd i lansio o Gomin Glas y Bont Uchaf ar gyfer canwod a chaiacau y gellir eu hadnabod yn rhwydd yn unig.

10. Hylendid:

Gofalwch fod cleientiaid yn gwybod lle mae'r cyfleusterau toiledau (h.y. yn Y Clas-ar-Wy ac yn Y Gelli Gandryll) a'r angen i ddefnyddio'r rhain, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl.

11. Pysgota o ganwod:

Ni chaniateir pysgota o ganwod, heb drwydded gwialen ddilys Asiantaeth yr Amgylchedd, caniatâd tirfeddiannwr a'r trwyddedau pysgota perthnasol ar gyfer y darn o afon dan sylw.

12. Offer:

Mae'n bosibl i rywogaethau ymledol, a allai achosi niwed i amgylchedd yr afon, gael eu trosglwyddo ar ganwod a chyfarpar arall. Rhaid i weithredwyr sicrhau bod canwod a chyfarpar a ddefnyddiwyd mewn safleoedd eraill yn lân ac yn sych, cyn eu defnyddio ar y darn o Afon Gwy rhwng Y Clas-ar-Wy a'r Gelli Gandryll.

13. Canwio mewn grwpiau mawr:

Os oes grwpiau mawr (h.y. mwy na 3 canw) yn teithio i lawr yr afon gyda'i gilydd, dylai gweithredwyr annog eu cleientiaid i gadw gyda'i gilydd fel grŵp a pheidio â gwasgaru mwy nag sydd raid. Mae hynny'n bwysig er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn ddiogel ac i leihau aflonyddu ar ddefnyddwyr eraill yr afon.

14. Diogelu glannau afonydd, planhigion a bywyd gwyllt arall:

Mae amgylchedd yr afon a'r bywyd gwyllt yn rhan o fwynhad y daith ar hyd yr afon ac mae angen edrych ar eu holau. Rhaid i weithredwyr atgoffa eu cleientiaid i wneud y canlynol:

- Defnyddio pwyntiau glanio y cytunwyd arnynt yn unig;
- Gofalu wrth lanio a lansio i leihau erydiad a difrod arall i lannau'r afon a llystyfiant;
- Peidio â mynd i'r caeau cyfagos i'r afon;
- Peidio â hel planhigion.

Mae camera sy'n dal dŵr yn ffordd wych i gofio'r daith a mwynhau'r bywyd gwyllt, heb achosi aflonyddwch na difrod!

15. Parcio a dadlwytho cerbydau ac ôl-gerbydau yng Nghomin Glas-y-Bont Uchaf:
Mae lle parcio yn y maes parcio wrth ymyl y comin yn Y Clas-ar-Wy yn brin iawn ac yn cael ei rannu gydag aelodau eraill y cyhoedd, felly mae angen parch.

Rhaid i'r giât i'r comin a'r tir o'i chwmpas gael eu cadw'n glir, oherwydd bod angen hyn ar gyfer mynediad preifat ac yn bwysig, i sicrhau mynediad i lan yr afon mewn argyfwng. Os bydd ar aelod o'r cyhoedd ar y comin angen cymorth

brys, bydd angen i ambiwlans neu gerbyd brys arall allu cyrraedd, neu fynd drwy'r giât.

Oherwydd hynny, mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau:

- Bod cerbydau a threlars yn cael eu parcio yn y maes parcio am yr amser angenrheidiol lleiaf posibl i ddadlwytho canŵod a sicrhau bod cleientiaid ar yr afon yn ddiogel;
- Os bydd angen rhoi sesiynau briffio cyn mynd i'r dŵr ar lan yr afon, bydd y cerbyd a'r trelar yn cael eu symud a'u parcio mewn lle arall yn ystod y sesiwn briffio;
- Nad yw cerbydau a threlars yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth o flaen y giât, neu o flaen y bloc toiledau, am fwy na'r isafswm amser sydd ei angen i ddadlwytho neu lwytho canŵod;
- Nad yw trelars yn cael eu datod oddi wrth gerbydau a'u gadael heb oruchwyliaeth yn y maes parcio ar unrhyw adeg.

Gweithgareddau y tu allan i'r cod ymddygiad hwn:

Nid oes dim yn y cod ymddygiad hwn yn atal perchnogion unigol hawliau tir neu bysgota rhag rhoi caniatâd penodol ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r cod ymddygiad hwn, cyn belled â bod ganddynt y pŵer cyfreithiol i roi'r caniatâd hwnnw ac nad ydynt yn torri'r gyfraith.

Ond rhaid cael caniatâd gan y gweithredwr cyn cynnal y gweithgaredd a chyfrifoldeb y gweithredwr yw gallu darparu tystiolaeth bod pob caniatâd neu gydsyniad perthnasol wedi ei roi. Nodwch yn benodol oherwydd bod yr afon wedi'i dynodi fel SoDdGA ac ACA, efallai y bydd angen caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegol at ganiatâd perchennog y tir neu hawliau bysgota.

Gellir gofyn am ganiatâd penodol ar gyfer gweithgareddau sydd y tu allan i'r cod ymddygiad hwn ac yn digwydd ar, neu o flaen Comin Glas-y-Bont Uchaf gan Gyngor Sir Powys. I ofyn am ganiatâd, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys, yn ystod oriau swyddfa, ar 01597 827500 neu drwy e-bostio cefnngwlad@powys.gov.uk

Ond nid yw hyn yn cynnwys canŵio i lawr yr afon o Bont Y Clas-ar-Wy neu'n uwch i fyny na chymer Afon Llynfi, y tu allan i'r amseroedd lansio sef 10:00-4:00.

Rhaid gofyn am ganiatâd y Cyngor yn ddim llai na 2 wythnos cyn i'r gweithgaredd ddigwydd, er mwyn rhoi amser i swyddogion ystyried y cais a gofyn am wybodaeth ychwanegol os oes angen. Os yw'r Cyngor yn fodlon rhoi caniatâd, yna bydd yn cael ei ddarparu yn ysgrifenedig. Unwaith eto, cyfrifoldeb y gweithredwr yw gallu darparu tystiolaeth y gofynnwyd am ganiatâd a'i fod wedi ei gael cyn i'r gweithgareddau gael eu cynnal.

Cytundeb i gadw at y cod ymddygiad ar gyfer gweithredwyr masnachol i lansio o ganŵod o Gomin Glas y-Bont Uchaf, o 14 Ebrill, 2017 - 30 Mawrth, 2018:

Enw'r cwmni:

Cyfeiriad y cwmni:

Person Cyswllt:

Rhif ffôn cyswllt:

(Os yw'r manylion cyswllt mewn argyfwng yn wahanol i'r rhif cyswllt arferol, rhowch y ddau a nodwch pa un y dylid ei ddefnyddio mewn argyfwng, ee gan yr heddlu)

Cyfeiriad e-bost:

Rydw i (enw) _____ yn cytuno, ar ran (enw'r cwmni)

_____ i gadw at y Cod Ymddygiad hwn mewn

perthynas â lansio canŵod o Gomin Glas y-Bont Uchaf, Y Clas-ar-Wy. Rwy'n deall os torrir y Cod Ymddygiad sy'n cynnwys y cwmni hwn neu ei gleientiaid, yna gallai caniatâd y Cyngor i lansio o'r comin gael ei dynnu'n ôl.

Rwy'n deall bod lansio o'r comin heb ganiatâd y Cyngor yn torri caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru i lansio ac felly gallai camau cyfreithiol gael eu cymryd.

Llofnod:

Printiwch eich enw:

Swydd yn y cwmni:

Dyddiad:

Deddf Diogelu Data 1998

Bydd gwybodaeth am weithredwyr masnachol sydd wedi cytuno i'r Cod Ymddygiad yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd rhestr o enwau gweithredwyr sydd wedi ymrwymo i'r Cod Ymddygiad bob blwyddyn ar gael i'r cyhoedd ac i Gyfoeth Naturiol Cymru. Os bydd y gweithredwr yn dymuno, gallai rhif ffôn a / neu gyfeiriad gwefan gael eu cynnwys hefyd;
- Bydd manylion cyswilt mewn argyfwng ar gyfer pob gweithredwr yn cael eu rhoi i'r heddlu, fel y gallant gysylltu â'r gweithredwr perthnasol yn gyflym os oes angen.
- Bydd y cytundeb a lofnodwyd yn cael ei gadw gan Gyngor Sir Powys.

Map o'r trefniadau lansio a glanio:

Lleoliadau:

- Safleoedd glanio y cytunwyd arnynt;
- Safle'r ystumllyn; dim lansio a glanio rhwng 15 Mawrth a 15 Awst bob blwyddyn.

